# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13481) yn:
http://senedd.tv/cy/13481

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Medi 2023

Amser: 14.00 - 14.50

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru.

Trafododd y Pwyllgor y Ddeiseb a chytunodd i'w hanfon at Bwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd a'i chadw ar agor tan y cyflwynir y Bil i'r Senedd.

### 2.2 P-06-1344 Dylid defnyddio tir amaethyddol o ansawdd cymedrol (gradd 3b) ar gyfer diogeledd bwyd ac nid ar gyfer ffermydd solar

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb, a chynnig y Gweinidog i rannu'r adolygiad o'r dystiolaeth gyda'r Pwyllgor. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gadw'r ddeiseb ar agor tan y cynhelir yr adolygiad o'r dystiolaeth.

### 2.3 P-06-1345 Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i wneud cais am ddadl ar y ddeiseb.

### 2.4 P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor nes bod Senedd Ieuenctid Cymru yn rhannu ei chanfyddiadau ar yr arolwg y mae'n yn ei gynnal ar hyn o bryd ar drafnidiaeth gyhoeddus, a ddisgwylir yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref.

## 2.5 P-06-1347 Adolygu polisïau anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w hanfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ynghyd â'r ohebiaeth a ddaeth i law. Bydd yn gwneud cais i'r ddeiseb gael ei hystyried fel rhan o'i ymchwiliad presennol i fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Cytunodd yr Aelodau hefyd i ddychwelyd at y mater i'w ystyried ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben.

## 2.6 P-06-1349 Dim dinasoedd na threfi '15' neu faint bynnag o funudau yng Nghymru heb gynnal pleidlais gyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chau o gofio bod y Gweinidog wedi datgan yn glir iawn nad oes cynlluniau o'r fath i gyflwyno 'dinasoedd 15 munud' yng Nghymru.

## 2.7 P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn ar unwaith

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i gadw'r ddeiseb ar agor tan y ceir diweddariad o gyfarfod cyhoeddus Llais sydd wedi'i drefnu yn ddiweddarach ym mis Medi.

Yn ogystal â hyn, cytunodd y Pwyllgor i anfon y ddeiseb at i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gofyn beth sy'n cael ei wneud am y mater.

## 2.8 P-06-1351 Dylid sicrhau bod proses sgrinio'r galon ar gael i bob person ifanc 11-35 oed sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd bwyslais cryf y Gweinidog ar bwysigrwydd arweiniad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a'r canllawiau a'r dystiolaeth a gafwyd

gan Sefydliad Prydeinig y Galon. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor nad oes lle i fynd â'r ddeiseb ymhellach a chytunodd i'w chau. Wrth wneud hynny, diolchodd yr Aelodau i'r deisebydd am dynnu sylw'r Pwyllgor at y mater pwysig hwn.

### 2.9 P-06-1352 Cymeradwyo adeiladu trydedd bont dros y Fenai

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor tan y ceir ymateb y Gweinidog i gynigion Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ar gyfer Menai.

### 2.10 P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i'w chadw ar agor tan ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni. Cafodd y deisebydd a'r deisebydd sy'n galw am Wahardd Rasio Milgwn eu hannog gan y Cadeirydd i ymgysylltu ag ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

### 2.11 P-06-1355 P-06-1355 Dylid cynnal refferendwm yn gofyn am gymeradwyaeth y bobl i gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o 36

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod disgwyl deddfwriaeth ar y mater hwn yn fuan, a bydd Pwyllgor yn cael ei sefydlu yn y Senedd i graffu arni. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 2.12 P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i gysylltu â Samuel Kurtz AS i drefnu ymweliad â chyffordd 'Mynegpost' yr A477.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i wneud cais am ddadl ar y ddeiseb yn dilyn yr ymweliad â'r safle.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1269 Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod y deisebwyr yn croesawu ymateb y Gweinidog ac yn falch bod ffrydiau gwaith a grwpiau arbenigol wedi'u sefydlu. Er bod gan y deisebwyr gwestiynau pellach ar y mater, maent yn cydnabod eu bod yn mynd y tu hwnt i gwmpas y ddeiseb. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ei ymgysylltiad parhaus.

### 3.2 P-06-1297 Dod â "llosgi dan reolaeth" i ben yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd bod y Gweinidog yn parhau i fod yn sicr bod Rheoliadau a Chod 2008 yn addas i'r diben, er bod y Pwyllgor wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at bryderon y deisebydd. Yng ngoleuni hyn, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am dynnu sylw at bryderon ynghylch effaith llosgi dan reolaeth.

### 3.3 P-06-1327 Cyfleusterau Canolfannau Hamdden am ddim i blant

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n tynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â diffinio beth fyddai am ddim, a sut y byddai'r gost o'i chyflawni yn cael ei thalu, yn y tymor byr a'r tymor hir. Yng ngoleuni hyn, caeodd y Pwyllgor y ddeiseb a diolchodd i blant Ysgol Mynydd Bychan am ymgysylltu â'r Pwyllgor Deisebau.

### 3.4 P-06-1336 Gwersi Cymraeg am ddim i bawb sydd isio dysgu'r iaith yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd yr ymateb blaenorol gan y Gweinidog a oedd yn glir nad oes cynlluniau i ddarparu darpariaeth Dysgu Cymraeg am ddim i bawb, a'r ymateb manwl diweddar gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg yn amlinellu'r ystod o

opsiynau, cefnogaeth benodol am ddim a'r ystod o gymorth ariannol sydd ar gael. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 3.5 P-06-1338 Ymestyn y cynllun brys ar gyfer y sector bysiau a datblygu cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer bysiau

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Comisiynydd Pobl Hŷn ac Age Cymru i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

Yn ogystal, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Carolyn Thomas AS i ofyn am ei barn ar y ddeiseb ac a fyddai'n gallu cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i gwybodaeth am y mater.

### 3.6 P-06-1340 Atal newid y terfynau cyflymder i 20mya ar 17eg Medi.

Nododd y Pwyllgor y ddadl a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin. O ystyried y bydd proses weithredu'r terfyn cyflymder o 20mya yn dod i rym ar 17 Medi cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Papur i'w nodi - Deiseb y flwyddyn - Gwerthusiad

Nodwyd y papur.

## 6 Trafod y flaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith